Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. HYDREF, 1948. Rhif 10.

Job Davies (Rhydderch Farfgoch) a'i Gylch

Gan y Parchedig Gomer M. Roberts, Pontrhydyfen.

I.

Saif adfeilion hen Gapel yr Onnen-fawr mewn cae gerllaw'r groesffordd ryw hanner y ffordd rhwng pentref bychan prydferth y Trap a Ffair-fach yn Sir Gaerfyrddin. Codwyd ef yno yn y flwyddyn 1838 ar achlysur yr awdurdodau eglwysig yn nacan caniatâd i'r Undodiaid i ddefnyddio hen gapel anwes Llandyfân. Flynyddoedd cyn hynny buasai llawer o ddadlau diwinyddol yn yr ardal ; nid oes angen inni fynd i mewn i'r hanes hwnnw yn yr ysgrif hon, ond canlyniad y dadlau oedd peri i'r Bedyddwyr godi capel yn Soar, gan adael yr hen gapel anwes ym meddiant yr Undodiaid. Gweinidog yr eglwys oedd un John Griffith, teiliwr o Landybïe—gŵr y buasai'n dda gennyf wybod rhagor amdano. Pregethai'n achlysurol ym Mhontbrenareth a Llandyfân ; "Trwy drugaredd," meddai David Jones amdano yn ei *Hanes y Bedyddwyr*, "ni feddai ond ar y ddawn ymadrodd gwaelaf, ond yn deilwng ddigon o'r athrawiaeth ag oedd yn gyhoeddi." Gwelir fod mwy o ragfarn nag o farn yn ei ddedfryd ! "Mr. Griffiths the Unitarian Baptist Minister" y gelwir ef gan y cenhadwr Undodaidd Lyons, yn 1811 ; "a plain man, who never had the advantages of education, but he possesses good sense, and is a man of excellent spirit, and his labours in the midst of much opposition have been with much success." Ymwelodd cenhadwr Undodaidd arall â Llandyfân yn 1816, Mr. Wright wrth ei enw, ac fel hyn y dywed yntau am y gweinidog, "Mr. J. Griffiths, of Llandebïe, preaches to this and several other congregations." Pregethodd John Griffiths ei bregeth olaf yn agoriad capel yr Onnen-fawr. Ymneilltuodd o'r weinidogaeth yn 1838, ac ni wn i ddim rhagor amdano. Pa bryd y bu farw, ac ymhle y claddwyd ef, sydd ddirgelwch i mi.

Ond am gapel yr Onnen-fawr yr oeddwn yn sôn. Bychan ydoedd o ran ei faint—Pen-y-cefn y gelwid ef gan lawer o frodorion yr ardal, ond ar dir yr Onnen-fawr y codwyd ef, ac wrth yr enw hwnnw yr adnabyddir ef yng nghroniclau Undodiaeth Gymreig. Flynyddoedd yn ôl, cefais lythyr oddi wrth Mr. J. R. Jones, Post Office, Trap, a dywedai wrthyf, "Cof gennyf i mi gyda phlant eraill yr ardal, fynd i mewn i'r hen gapel unwaith yn llechwraidd, a mynd i fyny i'r pulpud, a theimlo ein hunain yn dra dewr i allu sefyll ar ein traed yno. Yr wyf yn cofio gweld dynion yn mynd i'r cyfarfod olaf a gynhaliwyd yno. Un peth tarawiadol a wn, na fynnai'r aelodau gael eu galw yn Sosiniaid. Llysenw arnynt oedd Sosiniaid, ac fel y cyfryw yr ystyrient ef. Yr oedd un ohonynt yn gyfeillgar iawn â ni fel teulu, ac fe'n dysgwyd ni'r plant, rhag ei siomi, i alw'r capel yn gapel Undodaidd, a pheidio ar un cyfrif ei alw yn Sosinaidd ! Credem y pryd hwnnw fod yna wahaniaeth mawr rhwng Undodiaeth a Sosiniaeth, a bod y Sosiniaid yn llawer gwaeth dynion nag Undodiaid ! Un tro yr oedd y cyfaill crybwylledig, wrth ddod adref o ffair Llandeilo, wedi troi i fyny ar y groesffordd wrth y capel, yn lle mynd yn syth i lawr i'r Trap. Wedi iddo gyrraedd yr Hafod, fe sylweddolodd iddo golli'r ffordd, a dechreuodd weiddi am gymorth. Fe ddaeth pâr o'r ffair heibio, a gofynnwyd iddo beth oedd yn bod ? ' Yr wyf wedi colli'r ffordd,' meddai, ' pa ffordd sy'n mynd i'r Trap ? ' ' O,' meddai un o'r pâr, ' Cerwch lawr dros yr hewl nes dod i gapel y Sosiniaid, yna trowch ar y chwith.' ' Capel yr *Undodiaid*, os gwelwch chi'n dda,' oedd ei ateb sychlyd yntau, a dyna'r pryd yr adnabyddwyd ef ganddynt. A mawr fu'r miri a'r poeni arno am yr helynt pan aeth y sôn ar led." Ni byddai'n werth i mi ail-adrodd y stori, ond er dangos y rhagor sydd rhwng enw ac enw ym marn syml gwerin gwlad.

Edrydd Mr. Jones stori arall wrthyf. "Pan oedd y Parch. Jonah Morgan, Cwmbach, brodor o Gross Inn, fel y gelwid Rhydaman y dyddiau hynny, yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, cafodd gyhoeddiad yn yr Onnen-fawr. Yr oedd ewythr iddo yn byw yn y Trap, ac yn aelod yn y capel ; galwodd fore Sul yn nhŷ ei ewythr, ac aethant gyda'i gilydd tua'r capel. Wrth fynd i fyny, ebe ei ewythr wrtho, ' Paid ti â chodi dadl heddiw yn ystod y bregeth.' ' O'r gorau,' ebe Jonah Morgan. Wedi mynd drwy rannau dechreuol y gwasanaeth fe gododd ei destun, ' Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb ; Duw a ymddangosodd yn y cnawd . . .' Siomwyd ei ewythr yn ddirfawr, ac ni ofynnwyd iddo ddod i ginio, ac onibai iddo gyfarfod ag ewythr arall ar y ffordd o'r capel, buasai'n rhaid iddo fynd yn ôl bob cam i Rydaman heb fwyd. Ac ni chafodd bregethu yn yr Onnen-fawr byth ond hynny."

Caewyd yr hen gapel yn y flwyddyn 1888, ar ôl gwasanaethu'r Undodiaid yn ffyddlon am hanner can mlynedd. Fel tŷ Saul âi'r

achos yn wannach wannach gyda threigl y blynyddoedd. Bu Mr. John Nicholas, tadcu y Parch. Esaiah Williams, Aberteifi, yn ffarmio Onnen-fawr am flynyddoedd tua hanner can mlynedd yn ôl. Erys yr hen gapel yn ddiffeithfa heddiw—"drain ac ysgall mall a'i medd," a chyfeddyf y Parch. Oswald Williams, yn yr YMOFYNNYDD dro'n ôl, y gallai fod eglwys yno hyd heddiw oni bai am esgeulustod y tadau i drefnu gweinidogaeth gyson yn y capel.

Yr oedd Job Davies yn ei ddydd yn un o gefnogwyr pybyraf yr achos yn yr Onnen-fawr. Undodwr ydoedd o argyhoeddiad dwfn, a phrawf o hynny yw ei ymlyniad cyndyn wrth yr achos er bod ganddo ffordd bell i fynd yno o Bentre Gwenlais, ei gartref. Ef ofalai am luniaeth i bawb adeg y cyfarfodydd blynyddol, ac ef hefyd, yn ddieithriad, a anfonai'r cofnodion i'r YMOFYNNYDD. Deuai gwŷr Gelli Onnen drosodd yn bur aml i'r cyfarfodydd hynny i gadw gŵyl gyda'u cydgrefyddwyr, a mawr oedd y disgwyliad amdanynt ar adegau felly.

II.

Ganwyd Job Davies ym mhlwyf Llandybïe Ionawr 21, 1821. Enw ei wraig oedd Ann Morris, a aned mewn lle o'r enw Caledfwlch Ebrill 9, 1825, a phriodwyd hwy Ionawr 28, 1848. Bu iddynt chwech o blant, sef pedair merch a dau o fechgyn. Cawn sôn am y rheini eto, maes o law. Gwehydd oedd Job Davies wrth ei grefft. Cododd ffatri ym Mhentre Gwenlais, ac yno y bu'n dilyn ei oruchwyliaeth ar hyd blynyddoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gwerthai ei nwyddau yn y ffeiriau a'r marchnadoedd, a gwelid ef bob amser â'i gart ac asyn yn llwythog yn crwydro ar hyd y wlad. Yr un asyn a dynnai lwyth y lluniaeth i gyfarfodydd blynyddol yr Onnen-fawr. Enwogodd ei hun fel bardd, a daeth i sylw'r wlad fel llenor go fedrus yn fuan. Fel rhigymwr lleol y dechreuodd, wrth gwrs, a chefais atgofion amdano fel prydydd y pentre rai blynyddoedd yn ôl oddi wrth y diweddar Daniel Rees, Ffynnon-las, Pentre Gwenlais. Gweithiai Mr. Rees tua'r flwyddyn 1885 gyda mab-yng-nghyfraith Job Davies a oedd yn grydd yn y Waunarlwydd, gerllaw Abertawe. Yr oedd aelod o deulu Job wedi archebu pâr o esgidiau oddi wrtho, ond ar ôl hir ddisgwyl nid oedd sôn am yr esgidiau. Rhyw fore fe ddaeth cerdyn at y crydd oddi wrth Job â'r triban a ganlyn arno :

Ni welwyd byth mo'r sgidie
Yn ardal Llandybïe,
Mae hyn yn arwydd eitha drwg
Fod tân a mwg yn rhywle !

Yr oedd Job un waith wedi prynu sopenni gwellt oddi wrth ei gymydog, William y Drysgol, ond wrth ddechrau toi ei fwthyn â'r gwellt fe welodd nad oedd y defnydd yn dod i fyny â'r disgwyl. Teimlai'r prydydd yn anfodlon iawn, ac ar fore ffair Llandybïe fe welwyd un o'r sopenni gwellt ar ben y briffordd a'r triban a ganlyn wedi ei ysgrifennu ar bapur arni :

Un o sopenni'r Drysgol,
Un dwt fach afresymol,
Fe haeddai Wil i fod ynghrog,
Y ffyrnig rôg uffernol.

Torasai gŵr y Drysgol ddau bren onnen yn anghyfreithiol, a chyn hir fe welwyd sopen arall o wellt ar yr heol a'r triban yma arni :

Dwy onnen bert ryfeddol
A dorrwyd yn anamserol,
Dyma stranciau Nic a'i blant
Sy'n byw ym Mhant y Drysgol.

Bu llawer o fri ar ganu fel hyn un waith ar lafar gwlad, ac y mae'n ddiau i Job Davies wneuthur defnydd helaeth o'i awen i oganu mân bechodau a ffaeleddau ei gymdogion.

Ond yr oedd i Job amgenach awen ; cystadleuai yn eisteddfodau'r cyfnod, a mynych y gwelwyd ef yn ennill ar englyn a phennill a thraethawd. Daeth yn ŵr blaenllaw ymhlith yr Iforiaid, cymdeithas ddyngarol a wnaeth lawer yn ystod y ganrif ddiwethaf i noddi llên a barddas. Job oedd ysgrifennydd Cylch Llandeilo o'r gymdeithas am gyfnod hir, a chynhwysai'r cylch hwnnw ryw ddeuddeg cyfrinfa yn nwyrain y Sir. Cynhelid llawer o eisteddfodau gan y cyfrinfeydd hyn ac yn y rheini y daeth Job Davies yn adnabyddus fel bardd, a dewisodd iddo'i hun yr enw barddonol doniol Rhydderch Farfgoch. Yn hyn, debyg iawn, yr oedd o'r un anian â George Bernard Shaw !

Heblaw'r eisteddfodau hyn, yr oedd llawer o gysylltiadau llenyddol eraill rhwng beirdd y wlad a'i gilydd. Dywed Tom Matthews mewn hen rifyn o'r *Cymru* am gyfathrach arbennig rhwng gwehyddion Sir Gaerfyrddin â'u cymrodyr ym Morgannwg a Mynwy yn ystod y ganrif ddiwethaf. Bachgen ieuanc a ddechreuodd weithio yn y ffatri ym Mhentre Gwenlais oedd Ifor Cwm Gwŷs ; o dan ddylanwad ei feistr, mae'n debyg, y dechreuodd farddoni ; ond ni bu Ifor yn hir cyn troi ei gefn ar Bentre Gwenlais a ffoi i Forgannwg. Ac yn y sir honno y bu am flynyddoedd yn ddolen gyswllt rhwng beirdd y ddwy sir. Un o ymwelwyr cyson â Phentre Gwenlais oedd Jacob Davies (neu Thomas), prydydd a gwehydd a drigai ym Melin Gryddan, Castell Nedd. Yr oedd Ifor a Jacob yn briod â

dwy chwaer i Job Davies, a bu gwraig Jacob byw nes cyrraedd ei 105 mlwydd oed. Arosai Jacob am fis neu ddau ym Mhentre Gwenlais i weithio yn y ffatri, ac ymddifyrru mewn prydyddiaeth ; bu sôn am hir amser yn Sir Gaerfyrddin am ymryson farddol rhwng Ifor Cwm Gwŷs ag ef mewn priodas yn Llandybïe yn y flwyddyn 1840. Cofnodwyd y tribanau a ganwyd ar yr achlysur gan Job Davies, ac fe'u cyhoeddwyd ymhen blynyddoedd wedi hynny yn y *Cymru* (cyf. xxiv, 1903). Y maent yn enghraifft wych o ganu pen drws, ac o ddull pethau mewn priodasau gynt yng Nghymru. Daw hyn â ni at agwedd arall o fywyd Job Davies. Bu'n efrydydd craff o arferion a thraddodiadau lleol, a gosododd lawer o'r rheini ar bapur. Ysgrifennodd draethawd yn 1864 ar hanes a thraddodiadau ei blwyf genedigol ac ymhen amser fe aeth y llawysgrif i ddwylo Watcyn Wyn ; gwelwyd hi gan y Parch. Gwrhyd Lewis yn nechrau'r ganrif hon a dyfynnodd rannau ohoni mewn traethawd a ddanfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Rhyl yn 1904 ; gwelwyd y MS. gan Tom Matthews yntau tua'r un adeg. Mi fuaswn i'n barod i roi llawer am gael golwg ar y llawysgrif honno, ond ysywaeth y mae heddiw ymhlith y pethau colledig. Chwiliais lawer amdani, gan ohebu â hwn a'r llall, ond er chwilio a gohebu ni chlywais gymaint â siw amdani yn unman. Ceir ysgrif ar y Mynydd Mawr o'i waith yn *Y Diwygiwr*, 1863, a thebyg mai rhan o'r traethawd a enillodd wobr iddo yn eisteddfod y Foelgastell ydyw'r ysgrif ; testun y gystadleuaeth honno oedd "Y Mynydd Mawr."

Yr oedd Job Davies yn radical nid yn unig o ran ei grefydd, ond o ran ei gredo boliticaidd hefyd, ac ni bu'n ôl yn pleidio hawliau a breintiau dyn yn ystod terfysg Rebeca ganrif yn ôl. Yr oedd hynny'n ddigon naturiol iddo, oblegid fe ymddibynnai ar ' fasnach rydd ' am lwyddiant ei grefft a'i fywoliaeth. Gwyddai'n dda iawn trwy brofiad am orthrwm y tollbyrth ar heolydd y wlad, a gorfu iddo dalu llawer wrth fynd â'i gart asyn o gwmpas y wlad i werthu ei nwyddau. Rhoes araith danbaid iawn yn y cyfarfod cyhoeddus mawr hwnnw a gynhaliwyd ar fanc Llyn Llech Owen Medi 14, 1842, a dibennodd ei araith â'r englyn a ganlyn (o'i waith ei hun, oni chamsyniaf) :

O na welwn i waelod—da obaith,
A diben ar drallod :
Codi arf wedi darfod,
A breiniau dyn bron a dod.

Ymladdodd hefyd yn erbyn gorthrymwyr eglwysig ac enwadol. Yn yr Ymofynnydd am 1861 fe geir llythyr oddi wrtho at ddiaconiaid ac aelodau Soar, Llandyfân, ynghylch dadl a godasai ynglŷn â chladdu plentyn. Ymddengys iddo golli plentyn, a chan na

chafodd y plentyn mo'i fedyddio[1] fe wnaeth y tad gais am gael claddu'r plentyn ym mynwent y llan yn ei ffordd ei hun. Fe ymddengys i un Lewis Evan o Landeilo ysgrifennu llythyr neu ysgrif go finiog yn *Seren Cymru* yn beirniadu Job. Cymerth yntau fantais yn y llythyr agored i ateb ei feirniad, ac yng nghorff y llythyr fe gyhudda Fedyddwyr Llandyfân o redeg at yr offeiriad i fedyddio'u plant pan oedd y dwymyn goch yn drwm yn yr ardal yn 1860. Yn y llythyr hwn fe haera Job Davies iddo wasanaethu'n ohebydd cyson am ugain mlynedd i'r papurau a'r cyfnodolion a ganlyn : *Seren Gomer*, *Y Diwygiwr*, *Yr Iforydd*, *Y Gwron Cymreig*, *Y Cronicl*, *Yr Amserau*, Yr Ymofynnydd *a Seren Cymru*.

Bu farw Job Davies o dan amgylchiadau go hynod. Ceir yr hanes uwchben nifer o benillion i'w goffadwriaeth o'r eiddo Onllwyn Brace a geir yn *Cymru*, 1904. "Bu farw," meddir, "yng ngorsaf Llandeilo, yn ddisymwth iawn, yn 66 oed, wedi brysio i gwrdd y tren, Hydref 5, 1887, ' a'i bwys ar ben ei ffon '." Dychwelyd o feirniadu mewn rhyw eisteddfod yr oedd. O deyrnged iddo gosodwyd llieiniau du ar y trên a gariai ei gorff adref, a chanodd cloch y trên bob cam o Llandeilo i Landybïe. Bu ei weddw fyw am flynyddoedd lawer ar ei ôl, a bu farw yn Llandybïe Mehefin 24, 1907.

III.

Tua deng mlynedd yn ôl bûm yn gohebu â'i wyres, Mrs. Natalie Thomas Parsons, Salt Lake City, Utah, ac iddi hi yr wyf yn ddyledus am rai manylion am deulu Job Davies. Y mae ei ddarlun yn ei meddiant, a bu mor garedig â'm anrhegu â chopi ohono. Dengys inni ŵr mwynaidd yr olwg, ac iddo dalcen uchel, moel, a gwallt cyrliog ar hyd ei fochgernau. Hyd y gwn i, dyma'r unig ddarlun ohono sydd ar gael yn awr yng Nghymru.

Merch hynaf Job Davies oedd Mary. Priododd ag un Edwin Rees, a threuliodd ei hoes yn Llandybïe. Bu farw Rhagfyr 8, 1925, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd hi yn Llandybïe. Yr wyf yn ei chofio'n dda iawn, oblegid nid oedd nemor i eisteddfod yn yr ardal yn y dyddiau gynt nad oedd Mrs. Rees yno. Fel ei thad yr oedd yn barod ei hawen, ac arddelai'r enw "Dyffrynferch." Hi oedd mam y Dr. Ann Rees, un o'r merched ieuainc disgleiriaf a fagwyd yn ardal Llandybïe. Ganed Ann yn y Ffatri, Pentre Gwenlais, Mehefin 9, 1874. Addysgwyd hi yn yr Ysgol Genedlaethol, Llandybïe, ac aeth i'r Gwynfryn at Watcyn Wyn yn eneth

[1]Bedydd trwy drochiad ar gyffes o ffydd oedd yr arferiad yn yr Onnenfawr. Ceir gair gan Job Davies am un Elizabeth Jones yn yr Ymofynnydd, 1869, a dywed amdani, "Derbyniwyd hi yn aelod ym mhlith yr Undodiaid yn Llandyfân, tua 40 mlynedd yn ol, dan weinidogaeth y Parch. John Griffiths, Llandybie, pryd y bedyddiwyd hi dan broffes o'i ffydd ym mab Duw", etc.

pymtheng mlwydd oed. Bu'n efrydu yno am bedair blynedd. Yn Ysgol y Gwynfryn daeth i gyffyrddiad â bywyd llenyddol y fro. Yr oedd Gwili yn athro yno ar y pryd, ac aml fardd arall ; ond yr oedd Ann yn gallu prydyddu gystal â'r un ohonynt. Bu gan Wili gryn olwg arni, ac yn ystod y blynyddoedd 1891-4 fe dyfodd yr edmygedd yn gariad, fel y dengys y penillion tyner a ganodd iddi ar ôl ei marw. Ceir y penillion hyn yn *Cymru*, 1906, ac ymhen blwyddyn ceir dau bennill arall yn yr un cyfnodolyn ar y testun "Torri Calon."

Ar ddiwedd ei thymor yn y Gwynfryn aeth i'r Amerig, a bu'n efrydu mewn ysgol yn Efrog Newydd. Pasiodd, a hithau'n ugain oed, ar ben y rhestr i fynd i mewn i Goleg Meddygol Belle Vue. Bu yno am bedair blynedd gan raddio yn M.D. yn bedair-ar-hugain oed. Dechreuodd ar ei gwaith mewn cylch aristocrataidd yn Efrog Newydd, a daeth yn boblogaidd yn fuan, yn enwedig ymhlith y tlodion. Gwasanaethai Dr. Ann yn rhad bob amser iddynt hwy. Ym mis Hydref, 1905, ymwelodd â bro ei mebyd. Dychwelodd i'r Amerig a chyfarfu â thywydd blin ar y môr. Pan gyrhaeddodd y llong ben ei thaith ni allai fynd i mewn i harbwr Efrog Newydd y noson honno. Bu hynny'n anffawd i Ann, oblegid fe'i trawyd yn glaf o'r *pneumonia* yn ystod y fordaith, a bu farw o'r dolur hwnnw Hydref 25, 1905. Claddwyd hi yn Union Hill, Efrog Newydd. (Yr wyf yn ddyledus am fanylion ei bywyd i ysgrif fer o'r *Drych Americanaidd*).

Ymhen diwrnod neu ddau ar ôl ei marwolaeth fe ddaeth y newydd trist i Landybïe, a thrwm oedd yr hiraeth ym mhob man. Canodd ei mam farwnad ddwys ar ei hôl. (Argraffwyd y farwnad hon yn Yr Ymofynnydd, Ionawr, 1906. Mewn rhifyn diweddarach fe ddywedir iddi hwylio'n ôl i'r Amerig yng nghwmni ei chefnder, Henry Job Rees).

Dechreuodd Ann Rees lenydda'n fore iawn. Cafodd yr enw barddonol "Ceridwen" yn Eisteddfod Merthyr Tudful yn 1901, a chymerai ran amlwg yn eisteddfodau'r ardal. Llanwodd le pwysig hefyd yng nghylchoedd Cymreig yr Amerig. Ysgrifennodd lawer o bethau diddorol i'r *Cymru* coch, megis yr ysgrif ar Hen Wehydd (1903), Ifor Cwm Gwŷs (1904), a Ben (1905). Yn yr ysgrif gyntaf fe awgryma fod gryn lawer o bapurau ei thad-cu yn ei meddiant. Buasai'n dda gennyf gael golwg ar y papurau hynny heddiw, os ydynt ar gael yn rhywle. Wrth ymholi am ei hanes oddi wrth ei thylwyth yn yr Amerig, mi gefais nifer o englynion diddorol. Uwchben y gyfres y mae'r nodyn canlynol : "Anfonodd Miss Annie Rees, M.D. (Ceridwen), . . . dair pibell Indiaidd o'r Niagra i'r Gwynfryn yn ddiweddar, y tair yn llwythog o'r myglys iachaf y gallai y feddyges garedig gael gafael arno, a dyma dal y beirdd am yr anrhegion," sef yr englynion a ganlyn :

Wel dyma bibell i'm gwella,—moddion
Meddyg o'r Niagra ;
Pibell anferth gyfnertha
Fegin dyn am fwgyn da.
(*Watcyn Wyn*).

Llygadog bibell goeden,—a choryn
Indiad chwerw'i elfen ;
Rhoi hon yn llaw yr awen,
A chaiff y bardd chwiff o'i ben.
(*Gwydderig*).

Indian hardd bibell handi—a yrrodd
Y ddoctores Annie ;
A'i roesaw llawn dros y lli—heno'n
Ebrwydd o galon y bib rydd Gwili.
(*Gwili*).

Enw ail ferch Job Davies oedd Angharad, a fu byw a marw yn Llandybïe. Priododd ag un David Rees, ac aeth eu mab, Henry Job Rees, i'r Amerig, lle'r oedd ddeng mlynedd yn ôl (ac yn awr ar a wn i) yn ddeintydd yn East Hampton, Efrog Newydd. Y drydedd o'r teulu oedd Margaret, a briodod â David Palmer Thomas o Landybïe. Ymfudodd y ddeuddyn i'r Amerig yn 1875, a gwnaethant eu cartref yn Salt Lake City, Utah. Cawsant ddeg o blant, a chwech o'r rheini'n fyw yn 1938. Bu'r tad farw yn 1921 yn 67 mlwydd oed, a'r fam hithau yn 1924 yn 73 mlwydd oed. Bu un o'r meibion, Moyer Delwyn Thomas, yn Rhodes Scholar yn Rhydychen yn 1914, a graddiodd yno. Y bedwaredd ferch oedd Ellen, priod George T. Morris, Efrog Newydd, a fu farw yn 1930, gan adael ar ei hôl dri mab ac un ferch.

Enwau'r meibion oedd David Ivor a Theophilus. Yr oedd y cyntaf yn fardd, a mabwysiadodd yr enw "Dyffrynfardd." Ceir llawer o'i waith yn hen rifynnau'r Ymofynnydd. Ordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Undodiaid, a gweinidogaethodd yn Nowlais (1891-4), a Phentre Rhondda (1894-6). Ymfudodd wedi hynny i'r Amerig. Ni wn i ddim byd am Theophilus, eithr dywed Mrs. Natalie Thomas Parsons (merch Margaret) wrthyf ei fod yn offeiriad, ac iddo yntau, fel ei frawd, ymfudo i'r Amerig a thrigo yn Efrog Newydd.

Cipdrem ar anniddigrwydd ynglyn a'r Eglwys cyn ei diwygio bedair canrif yn ol.

Anfonwyd llythyr gan y Tŷ Cyffredin i'r brenin Harri VIII, Mawrth 18, 1532, yn yr hwn y ceir cyfres o gŵynion yn enw lleygwyr y deyrnas yn erbyn swyddogion yr Eglwys yn Lloegr a Chymru. O'u gogrwn erys a ganlyn fel craidd y cŵynion. Yn gyntaf oll cwynir yn chwyrn fod y swyddogion benodid i eistedd mewn barn yn y llysoedd Eglwysig ar leygwyr gyhuddid o ddal syniadau cyfeiliornus yn eithafol haerllug a dideimlad yn eu hymddygiad tuagat y cyhuddedig, a thrwy hynny yn creu anfodlonrwydd mawr ymhlith y bobl. Yna ceir cyfres o bethau y dylai'r brenin edrych i mewn iddynt a'i diwygio, megis y ffaith fod yr awdurdodau eglwysig heb ganiatâd y brenin yn pasio rheolau ac ordeiniadau newyddion i'w gosod ar warrau'r bobl, nes peri, oherwydd amlder a newydd-deb y cyfryw, fod y llysoedd eglwysig yn cael eu gorlwytho ag achosion i'w trin na ddylent fodoli, a bod y bobl yn cael eu taflu i gostau cyfraith a dirwy yn ddiachos ac yn anghyfreithlon. Ac nid yn unig am droseddu'r rheolau newydd y dirywid hwy, ond hefyd heb gwell esgus na mympwy offeiriad y plwy a ystyriai ysgafnder diniwed yn drosedd cospadwy. Gobaith bychan oedd gan leygwr diddysg a gyhuddid o heresi i ddianc o rwyd ei gyhuddwr gan y defnyddiai hwnnw dermau anhysbys i werinwr wrth ei holi, a chan fwyaf dermau amwys eu hystyr. Condemnid yr heretic tybiedig yn ddifeth a throsglwyddid ef i'r llys gwladol i'w gospi. Druan ohono, os llwyddai wedi cludo llwyth o goed ar ei gefn i'r stanc i ddianc rhag cael ei losgi'n fyw byddai'r gost yn llethol iddo. Codid tâl hefyd am weinyddu'r sacramentau i'r bobl.

Nodir yn y llythyr y taliadau godid yn y llysoedd eglwysig ac o gofio bod swllt y pryd yn gyfartal i bunt heddiw yr oedd y deuddeg swllt i gyfreithiwr yr eglwys am ymgymryd ag achos, a'r mân daliadau lluosog ynglŷn â thrin achos yn y llys, a phunt, chwe swllt ac wyth geiniog am ddedfryd y llys, yn ddigon i wneud cardotyn o ddyn cefnog. Yr oedd y costau i brofi ewyllys yn llys yr esgob yn eithafol, oblegid yr esgusodion i ohirio ac ymgynghori a roddid, yn ôl y llythyr hwn.

Tipyn yn chwithig i ymneilltuwr yw'r sôn am dâl am y sacramentau, er y gwyddom am weinidog yn y wlad yn Sir Gaer ganrif a hanner yn ôl a gai bunt am fedyddio plentyn, ond swllt am bregeth. Yr oedd priodi yn sacrament y pryd hwnnw, ac er wedi peidio a bod felly, erys y tâl am y gymwynas. Yn naturiol amddiffynnodd yr esgobion eu trefniadau a seilient eu rhesymau ar hawl cynhadledd o esgobion i wneud rheolau i gwrdd ag amgylchiadau newydd yn ôl

Ysgrythur a Chanonau'r Eglwys, heb ymyriad yr orsedd, am eu bod o dan arweiniad yr Ysbryd ; ac am eu triniaeth o hereticiaid, dywedent fod nifer o wrthgilwyr, brodyr, mynachod ac offeiriaid aflan eu moes, a diogwyr o fwriad llygredig, masnachwyr wedi torri, a chrwydriaid digydwybod wedi llyncu syniadau cyfeiliornus a ffiaidd a ledaenwyd yn ddiweddar yn Germani, a bod rhai yn eu hanwybodaeth a'i diniweidrwydd wedi cael eu camharwain gan y cyfryw.

Mae'n amlwg bod trefniadau at gynnal y Deml a'i hoffeiriaid yn yr Hen Destament ym meddwl yr esgobion wrth amddiffyn hawl yr Eglwys i'r taliadau, ond yr oeddynt yn barod i newid unrhyw reol a brofid ei bod yn groes i Ysgrythur a disgyblu unrhyw swyddog a wyrodd reol i ddiben hunanol a bydol. Safent hwy dros hawl yr Eglwys i hunanlywodraeth, ond yr oedd y brenin â'r Tŷ Cyffredin eisiau ei gwneud yn ddarostyngedig i awdurdod yr orsedd a llwyddwyd ganddo maes o law i'w gwneud yn llaw-forwyn y llywodraeth.

[Gellir gweled Llythyr y Tŷ Cyffredin yn llawn yn "*Hanes Lloegr*" gan Fronde, Cyf. I, tud. 189, ond fod y dyddiad yn anghywir ganddo].

Ar wahan i'r hyn y cwynir o'i blegid yn y llythyr, ceir arwyddion yn y cyfnod hwn o anfodlonrwydd ynglŷn â ffordd y Pab o Rufain o fynnu ei hawliau tybiedig ar Eglwys a Llywodraeth Lloegr. Er enghraifft, yr oedd hi yn rheol i'r Pab gael cyflog blwyddyn gyntaf swyddogion blaenaf yn yr Eglwys ar ôl eu penodiad. Digwyddodd i ddau esgob gael eu hapwyntio ganddo yn yr un flwyddyn a mynnodd y Pab gael cyflog dwy flynedd esgobaeth Lincoln. Bu hyn yn achos protest gan Harri VIII trwy Wolsey. Protestiai'r Pab hefyd fod priodasau rhwng teuluoedd brenhinol a thywysogion yn cael eu trefnu heb ei gydsyniad ef. Danghosai'r bobl wrthwynebiad i gasglyddion treth Pedr, am mai i Rufain yr anfonid yr arian, a gorfu i'r Pab ysgrifennu at Harri ynghylch y peth : fel yn raddol cynyddodd y drwg deimlad ymhlith y bobl tuagat Rufain a'i gofynion, a bu hyn yn help mawr i safiad y Tŷ Cyffredin o blaid Harri maes o law, ac erbyn dydd mawr penderfynu torri pob cysylltiad a'r Pab a'i fintai yr oedd corff mawr yr esgobion a'r clerigwyr yn Lloegr yn bleidiol i safiad y brenin yn ogystal. Os gwysid y brenin i Rufain deuai ag ugain mil o filwyr, ebai y Canghellydd Wolsey yn 1529.

Y TRACTOR.

A'i stŵr fel islais taran,—hyd y wlad
Cluda'i lwyth yn fuan ;
Rhwyga dir fel draig o dân,—
Braw hwn a sobra anian. ISLAN.

Y Freinlen Fawr a'i gwir werth.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Un o ddyddiau nodedig hanes oedd Mehefin 15, 1215—nodedig ar gyfrif y ffaith mai ar y dydd hwn y cychwynodd y frwydr hir, boethlyd, i ennill y rhyddid a fwynhawn ni heddiw. Myn rhai awdurdodau hanes i'r frwydr gychwyn cyn y dyddiad hwn—yn nheyrnasiad Harri'r Cyntaf, os nad yn gynharach na hynny. O barthed i gywirdeb yr honiad hwn, y mae lle i wahaniaeth barn. Yn unrhyw achos, nid mawr oedd gwerth a wnaed dros ryddid cyn yr adeg y cyfeiriwyd ati.

Yn nheyrnasiad y brenin Ioan y llawnodwyd y Freinlen. Pa fath ar ddyn oedd ef? Dywed un hanesydd: "yr oedd ei gymeriad mor ddrwg, ac arweiniwyd ef gan ei annoethineb i ymddwyn mor ffôl, fel y bu'n achos i Loegr golli ei meddiannau ar y cyfandir, a phe cai fyw ychydig ymhellach, collai yntau ei goron." Gydag ychydig eithriadau—os eithriadau hefyd—cymeriadau gwarthus o wael a fu pennau coronog Prydain, hyd adeg Victoria. Eithr yn ddi-os, y gwaelaf ohonynt i gyd oedd Ioan. Gorthrymwr ydoedd, heb gymaint ag un rhinwedd i agweddu ei hagrwch. Daeth yr iau a osododd ar ysgwyddau'i ddeiliaid mor feichus, fel y perwyd i'r barwniaid godi mewn gwrthryfel, a mynnu iddynt eu hunain welliannau tuag at ysgafnháu eu beichiau. Ie, iddynt eu hunain; oblegid ni thybid yr haeddai'r dosbeirth îs unmath ar freiniau. Dechrau bach oedd a wnaed gan y barwniaid; eithr dechrau a arweiniodd, o gam i gam, i gnwd cymharol doreithiog o freiniau ynghwrs y canrifoedd a oedd i ddod. A diolch a ddylem iddynt am beri ohonynt i'r olwyn ddechrau troi.

Rhwng y dyddiad a enwyd a dechrau'r ugeinfed ganrif, brwydr ar ôl brwydr, brwydrau hyd at y tân a'r ffagodau, a fu'r stori. Diffyg gofod a bair gwtogi'r hanes. Un o ddigwyddiadau pwysicaf hanes a fu torri o Harri'r Wythfed y cyswllt rhwng y wlad hon a Rhufain (y Babaeth). Hwn oedd yr unig weithred ddawnus y gellir yn gyfiawn ei phriodoli i'r teyrn anfoesol baganaidd hwn. A sicr yw nad parch i ryddid nac i grefydd a'i cymhellodd i dorri'r cyswllt. O adeg ei farw ef, ni wnaed ond ychydig os dim (dim, o leiaf, o un gwerth) tros ehangu terfynau rhyddid, hyd adeg y Werin-Lywodraeth. Byr a fu ei pharhad, o tua 1649 hyd farw Cromwell yn 1658; eithr er byrred ydoedd, ni bu yn hanes Prydain Fawr gyfnod cyfoethocach o esiamplau o wrhydri. Bu farw'r arweinydd; eithr ni bu farw'r mudiad rhag blaen y bu ef gychwynnydd a thwr cadarn o amddiffyniad iddo. Yn ei lyfryn ar Gromwell, dywed Dr. Horton: "Gorffennodd ef ei waith. Dinistriodd yr orsedd a fygythiai ddinistr i ryddfreiniau Lloegr, ynghyd

â'r Eglwys a oedd anewyllysgar i ganiatau rhyddid cydwybod. Pan adferwyd yr orsedd, yr oedd wedi'i gosod ar sylfaen Werinol, datostyngedig i ewyllys y bobl. Pan adferwyd yr Eglwys, bu am wyth mlynedd ar hugain yn ymgais at ddilyn ei hen lwybrau ; eithr yr oedd y Werin-Lywodraeth wedi hau hadau a esgorodd ar Ddeddf Goddefiad, a warafunai ymyrru o'r Llywodraeth â chydwybod dyn. . . . Dyna waith Cromwell ; ac fe'i cwblhaodd."

I fwynhad o'r etifeddiaeth gyfoethog hon y'n ganed ni. Etifeddiaeth ydyw a enillwyd gan "yr ardderchog lu" a frwydrodd, a ddioddefodd, a fu marw, er ei phwrcasu. Onid gwir ydyw mai "eraill a lafuriodd, a ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt."

Beth amdani—heddiw ? Onid oes achos i ofni na werthfawrogwn *ni* mo'r breiniau a fwynhawn, agos i'r mesur y dylem ? Onid oes reswm dros ofni "mai rhy rwydd yw'n bywyd ni ?" Ie, bywyd rhwydd yw'n bywyd ni. Eithr cofier mai "gwyliadwriaeth di-aros yw pris rhyddid." O beidio â bod ar wyliadwriaeth, llithro a wna o'n gafael, ymron heb ymwybod inni.

Hen Athrofa Pontsian.

Gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Cyn-brifathro Coleg Caerfyrddin.

Cyfeiriais mewn rhifyn blaenorol o'r Ymofynnydd y byddai canmlwyddiant dechreuad gweinidogaeth hir a llwyddiannus y Parch. Thomas Thomas ym Mhantydefaid yn digwydd yn 1947 a gobeithiwn bryd hynny y cawsem gyfeiriad helaethach at wasanaeth y pregethwr craff, yr ysgolfeistr hyglod a'r boneddwr haelfrydig. Ni chlywais ac ni welais i ddim gymryd lle—rhyfedd cyn gynted yr anghofiwn ein cymwynaswyr ! Gan hynny, nid annerbyniol efallai nac amhriodol fydd ychydig "Atgofion am Hen Athrofa Pontsian" a gefais dro maith yn ôl oddiwrth un o'i hen ysgolheigion, sef, "Shoplôn",[1] hen gymeriad nodedig o Ddyffryn Aeron. Dilynodd Shoplôn ei hen feistr drwy'r "geledig gul adwy" flynyddoedd lawer yn ôl : ni chofiaf ba flwyddyn. Yn anffodus nid oes dyddiad ar yr ysgrif ychwaith, er bod rhyw awgrym ohono yng nghorff yr hanes. Atgynyrcha'r Atgofion yn bur gywir *atmosphere* rhai o'r hen ysgolion ; adlewyrcha'n dra fyw eu naws. Yn hynny yn fwy nag mewn unrhyw fanylion hanesyddol, fel y'u hystyrir yn

[1]Cymhwyswyd ychydig ar yr ysgrif, yn arbennig yr orgraff, ond ni newidiwyd y ffeithiau ddim.

gyffredin, y gorwedd gwerth atgofion Shoplôn. Cyn dyfynnu o'r ysgrif gellir nodi bod y llaw ysgrifen yn gyfryw y byddai'n dda i lawer o ysgolheigion diweddarach ei hefelychu.

Ond gadawn i Shoplôn ddwyn ei dystiolaeth ei hun :—

"Safai pentref Pontsian yng nghwr isaf Sir Aberteifi rhyw dair milltir o dref Llandysul, ac yr oedd yr ysgoldy ar y ffordd o'r pentref i New Inn, Llwynrhydowen. Adeilad hollol ddiaddurn oedd, ond beth yn well na'r bythynnod cyfagos, a'i do o lechi.

Yno yr oeddem, rhyw hanner cant neu ragor o ysgolheigion o'r ddau ryw o'r saith oed i'r pedwar deg yn cael ein haddysgu gan un athraw, sef, y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Yr oedd rhai ohonom yn dechrau ar yr Wyddor, eraill yn y Gramadeg, rhai yn y Groeg a'r Lladin, a llawer yn dysgu Morwriaeth. Ond y peth sydd yn fy synnu ydyw fod un athraw yn gallu rhoddi dim ym mhennau'r fath lu cymysg o ysgolheigion, ond yr oedd Mr. Thomas yn *born teacher*. Credaf fod yn rhaid geni athraw yn ogystal a bardd ; gall Coleg fod o beth help ond nid digon i wneud athraw llwyddiannus.

Tan lu o anfanteision codwyd yn yr Athrofa liaws o ddynion a fu'n addurn mewn byd ac eglwys, ar dir a môr—meddygon, offeiriaid, pregethwyr, cyfreithwyr a chapteniaid llongau. Oni ddylai'r oes bresennol fod yn ddiolchgar am y manteision a geir heddiw ?

Heblaw ei fod yn athraw da yr oedd llawer o *sense of humour* yn Mr. Thomas.

Yr oedd yn yr ysgol pan oeddwn i yno dri mewn gwth o oedran, a'u henwau oedd Abraham, Isaac a Jacob, a byddai'r meistr yn aml yn eu cyfarch fel y Tad Abraham, y Tad Isaac a'r Tad Jacob. Y Tad Isaac, neu Isaac Davies, o roddi iddo ei enw priod, oedd y doniolaf o'r tri. Brodor o ardal y Gurnos oedd a chrydd ym more ei oes, ond ei wyneb bryd hynny at yr offeiriadaeth. Ystyrid ef yn llenor a cherddor, ac eto ni hoffai ei wersi yn yr ysgol yn dda. O ran ei anian ymddiddorai'n bennaf mewn gwleidyddiaeth, ystorïau a smocio yn siop Twmi'r Crydd, a llawer dadl a glywais rhyngddo a'r athraw ar bynciau'r dydd. Yr oeddwn i yn yr ysgol ar amser go gythryblus ar fyd, sef, amser etholiad bythgofiadwy 1868.

Yr oedd yn arferiad caniatau i'r ysgolheigion fyned allan o dro i dro am ryw bum neu ddeg munud ac weithiau ai *Father* Isaac ymhell dros y terfyn. Wedi iddo ddychwelyd ryw dro ar ôl hir aros, meddai'r athraw wrtho : '*If you were one of these (young) boys I should know what to do with you* !' Atebodd Isaac, '*Oh, I am prepared to take the medicine*,' a chafodd wialennod ar ei law nas anghofiodd dro maith. Un pechod arall a'i nodweddai oedd methu â dod yn brydlon i'r ysgol, ond chwarae teg iddo yr oedd yn lletya filltiroedd o'r ysgol, sef, yng Nghoedlannau Fawr gyda

pherthynas iddo. Rhyw fore dyma fe'n dod yn llechwraidd i mewn a'r athraw yn ei ganfod ac yn ei gyfarch—'*Father Isaac late today again*' ? Atebodd y disgybl mewn rhigwm fel hyn :—

Meddyliais wrth gychwyn o gartre y bore
Mai rhywbeth fel yna fuasai'r cwestiyne.
Gwnewch chwi, Syr, faddau, gwnaf innau droi dalen ;
Mae arswyd ar f'enaid wrth weld y wialen.

Aeth Isaac i fyny i St. Bees a chafodd dderbyniad i'r Athrofa a daeth allan yn *fully-fledged* yn ei dro a chafodd giwradiaeth yn Lerpwl.

Mae y rhan fwyaf o'r rhai a fu'n cydysgolia â mi wedi croesi'r llen, sawl un yn y blynyddoedd diwethaf, sef, J. Thomas, Frondolau; I. Griffiths, Cefngwyddyl ; y brodyr D. ac R. Lewis, Tyddyndu ; Evans, Gorrig ; Capten Walters, Henllan ; Aeron Thomas ; ac yn ddiweddar iawn y Parch. R. Jackett. Y mae rhyw wyth eto'n fyw y gwn i amdanynt."

Trwy ryw amryfusedd collais gyfle i gael rhagor o hanes yr hen ysgol enwog gan un a fu ynddi, canys fel hyn y terfyna ysgrif Sioplôn :—

"Pe gwypwn yr hoffech, caech ysgrif eto yn eu henwi (yr wyth, mae'n debyg), yn rhoi hanes y lle y lletyem ynddo a *bill of fare* ysgolheigion Pontsian y gwn y byddai'r oes bresennol yn troi ei thrwyn oddiwrthi. A ydyw hi heddiw wedi myned yn rhy foethus ?

Nid hawdd gennyf faddau i mi fy hun os bu esgeulusdod ar fy rhan i. Efallai i'r hen frawd ei hun ymneilltuo tuhwnt i'r llen cyn gallu cyflawni ei fwriad. Ni chofiaf."

Deallaf fod gan Mrs. Jenkins, unig ferch Mr. Thomas, *register* neu fwy nag un a gadwai ei thad. A gaf fi awgrymu'n garedig iddi mai yn y Llyfrgell Genedlaethol y dylai pob record am yr ysgol fod ? Dyna ffordd wych o anrhydeddu ei thad, a dwyn ei enw i sylw maes helaethach na chylch cyfyng Undodiaeth Cymru.

Yr Olyniaeth Apostolaidd.

Mae'r athrawiaeth hon yn seiliedig ar y gred fod yr Apostol Pedr, fel esgob yr eglwys yn Rhufain am oddeutu chwarter canrif, wedi ordeinio trwy arddodiad dwylaw, olynydd iddo yn yr esgobaeth, a bod yr ordeiniad hwnnw wedi gwneud ei olynydd a phob gŵr ordeiniedig arall hyd ddiwedd amser a fedro olrhain cysylltiad didor ei urddiad ag esgob Rhufain, yn gyfrannog o allu gwyrthiol Pedr. Hynny yw, bod yr Ysbryd Glân yn trigo ynddynt yn rhinwedd arddodiad dwylaw esgob yn yr olyniaeth.

Mae'r ordeiniad yn yr olyniaeth yn golygu mwy nag awdurdod swyddogol i gyflawni gwaith y weinidogaeth ynglŷn â'r sacramentau, y bugeilio a'r pregethu. Golyga amod effeithiolrwydd y sacramentau. I offeiriad yn Eglwys Rufain cyfystyr yw a medru cyflawni gwyrth i newid hanfod bara a gwin ar fwrdd y cymun a'u gwneud yn wir gorff ac yn wir waed Crist. Athrawiaeth gyfriniol yw hon sy'n golygu aileni protestant, yn enwedig ymneilltuwr, er medru ei chredu ; ond amlwg yw fod yr aileni hwn yn bosibl, o gofio am rai a fu yn brotestaniaid ac sydd bellach yn yr olyniaeth.

Dymunwn awgrymu beirniadaeth ar y gred hon o dri safbwynt. Yn gyntaf mae'r traddodiad i Pedr fod erioed yn Rhufain yn rhy ansicr i unrhyw hanesydd bwyso arno. Gwir y derbynia Harnack ef fel ffaith hanesyddol, ond teifl Schmiedel ef i'r gwynt fel mân us. Gellid gosod y profion dros ac yn erbyn cywirdeb y traddodiad wrth ei gilydd, pe buasai hynny o ddiddordeb i ddarllenydd o leygwr, ond ymataliwn gan nodi'n unig fod y rhamant ' Clement,' sydd bron a bod yn gynnyrch yr oes apostolaidd, yn gwneud i Pedr gyrraedd Rhufain ar ôl Simon Magus i'r diben o ddadwneud gwaith y swynwr. Mae'n amheus a fu Simon Magus erioed yn Rhufain. Nid yw tystiolaeth Iwstyn Ferthyr ar y pen hwn yn werth dim ond i ddangos ei anallu ef i ddarllen cerfysgrif Lladin ar faen. Aeth can mlynedd heibio wedi merthyrdod Pedr cyn i'r gred iddo sylfaenu'r eglwys yn Rhufain sicrhau lle yn nhraddodiad yr eglwysi, a'r pryd hwnnw cysylltid enw Paul ag ef. Ymhen dau can mlynedd anwybyddid Paul, a Phedr yn unig oedd sylfaenydd yr eglwys yn Rhufain. Yn ail, paham na chaiff olynwyr y rhai y gosododd yr Apostol Paul ddwylaw arnynt eu cydnabod fel yn yr olyniaeth apostolaidd, canys trosglwyddai yntau ddawn yr Yspryd, yn ôl yr Actau a'r Epistolau Bugeiliol. Wrth gwrs try'r ddadl o gylch y traddodiad i Pedr fod yn esgob Rhufain ac na fu Paul ddim yn esgob. Mae'r pwnc hwn eto o'i drin yn llawn yn ormod i erthygl fer, ond gellir awgrymu fod apostol ac esgob yn cynrychioli gwaith hollol wahanol am y ganrif gyntaf o hanes yr eglwys, ac nad oedd olynydd i Pedr fel apostol, ac mai gwyro gormod ar ystyr geiriau yw galw Pedr yn esgob.

Yn drydydd, faint bynnag o rin sydd yn y gred gyfrin o allu offeiriad yn yr olyniaeth i droi elfennau'r Cymun yn gorff a gwaed Crist, yn ôl athrawiaeth Rhufain, neu i alw'r Crist ysprydol i'w bresenoli ei hun gyda'r bara a'r gwin, yn ôl Luther a'r uchel-eglwyswyr, mae yna berigl fod y parodrwydd i gredu'r athrawiaeth yn gwanhau'r gallu i farnu'n gywir. Am y parodrwydd gellir enwi Kidd yn ei gyfrolau gwerthfawr ar hanes yr Eglwys fel un. Sonia am sacramentau y crefyddau cyfriniol a ragflaenai Gristnogaeth fel yn cynnwys gwirionedd sylfaenol mewn crefydd a bod Cristnogaeth yn cadarnhau'r gred a goleddid ynddynt. Onid hyn a gyfrif am y newid barn gydag Archesgob Cranmer, canys yn 1533

fe gondemniodd Cranmer gyfaill Tyndale, sef Frith, i'r stanc am wrthod credu'r athrawiaeth o draws-sylweddiad : ond yn 1555 condemniwyd Cranmer yntau i'r stanc am newid ei farn a chytuno a Luther ar y peth : "I believe", ebai, "that who so eateth and drinketh the sacrament, Christ is within them, whole Christ, his nativity, passion, resurrection and ascension, but not that corporate Christ that sitteth in heaven." Onid yw yn ffaith fod offeiriaid yn yr hen amseroedd wedi adysgrifennu hanes i gadarnhau eu cred hwy ? Oni wnaeth Mohamed gyfansoddi'r Coran yn gyson a hyn ?

Y tueddfryd hwn, ni gredwn, sy'n cyfrif am Lyfr Mormon o waith Ioseff Smith, rhyw ganrif yn ôl, gyda'i honiadaeth fod ei gynnwys wedi ei ysgrifennu yn Hebraeg yn oes Eseciel, gan alltud o Iddew yn yr Aifft, ar ddalenau aur, a'u cuddio am dros ddwy fil o flynyddoedd a'u datguddio i Ioseff Smith gan angel. Ceir enwau unarddeg o swyddogion ei fudiad newydd ef wrth dystysgrif yr honnir iddynt weled y dalenau aur a'r ysgrif arnynt a bod cyfieithiad Ioseff Smith yn gywir. Ofnwn fod a wnelo'r awydd am i'r olyniaeth fod yn wir a chynyrchu ac ategu'r gred.

I ni mwy tebygol i'r gwir yw cred Deon Inge nad oes olyniaeth ond un ysprydol yn bod.

Adolygiad.

PREGETHWR A OFNODD FYND I'W "GYHOEDDIAD".

Llyfr Jona. Parchedig D. Tecwyn Evans, M.A. Gwasg Aberystwyth. Pris 1/6.

Digwyddias ddarllen paragraff yn *Y Cymro* yn dweud mai'r unig argraffwaith a ddangoswyd yn yr Exhibition for Design yng Nghaerdydd dro'n ôl oedd cyfor llyfr Tecwyn, *Llyfr Jona.* Dyna'r cyfeiriad cyntaf a welais i at y llyfr, ac wedi gweld y llyfr, deallaf paham. Y mae Gwasg Gomer i'w llongyfarch ar eu gwaith, ac yn haeddu'r anrhydedd.

Y mae Tecwyn hefyd i'w longyfarch ar ei astudiaeth odidog ar lyfr a gafodd fwy o gam hwyrach na'r un o lyfrau'r Beibl. Byddai'n dda pe bai'r bobl gellweirus a dibarch o'r Beibl yn ei ddarllen. Rhoddai hynny iddynt syniad arall am y "pysgodyn" ac am feddyliau mawr y proffwyd dienw a luniodd yr hanes. Honna Tecwyn mai ef yw proffwyd mwya'r Hen Destament, ac eithrio Jeremia a'r Ail Eseia. Deil iddo weld yn eglurach na'r rhelyw o'r proffwydi gysegredigrwydd bywyd pob dyn a chariad anfesurol y Duw goruchaf. Hynny sy'n gwneud gwaith y proffwyd yn genadwri amserol. Yn enw dyngarwch gwrthdystio yn erbyn crefydd gibddall a chenedlaetholdeb gul y mae.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul